CYFRES A12

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 1: 5-20
a 57-66

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 1: 37

Gwers 1 Y Nadolig Cyntaf – Yr Amhosibl!

Beth oedd yr anrheg Nadolig orau gawsoch chi erioed? Efallai ei fod yn rhywbeth na wnaethoch chi erioed freuddwydio y byddech yn ei gael. Yn y gwersi hyn, rydyn ni'n mynd i edrych ar y Nadolig cyntaf, pan gafodd Iesu ei eni. Ond cyn dysgu am eni'r Arglwydd Iesu, rydyn ni am ddarllen am blentyn arall a roddodd lawenydd mawr i'w rieni!

C Pwy oedd y brenin pan gafodd y plentyn hwn ei eni? Ticiwch y blwch cywir. 1

Cesar ☐ Pharo ☐ Herod ☐ Iago ☐

Yn y dyddiau hynny, os oedd cwpwl yn methu cael plant, roedd llawer o bobl yn meddwl eu bod wedi gwneud rhywbeth drwg a bod Duw yn eu cosbi. Ond edrychwch ar adnodau 5 a 6.

C Ysgrifennwch yn EICH GEIRIAU EICH HUNAN pa fath o bobl oedd Sachareias ac Elisabeth. 2

C Atebwch CYWIR neu ANGHYWIR i'r brawddegau isod:-

Roedd Sachareias ac Elisabeth yn hen. .....

Roedd Sachareias yn gweithio yn y palas. .....

Gwelodd Sachareias angel. .....

Galwodd Sachareias ac Elisabeth eu mab yn Joseff. .....

Roedd y cymdogion yn drist iawn. .....

5

C **Tynnwch linell o'r bys i'r ateb cywir.**
Beth oedd gwaith Sachareias?



Brenin **Pharisead**
Pysgotwr **Offeiriad**

1

CROESAIR

Defnyddiwch eiriau o'r Darlleniad o'r Beibl i wneud y croesair.

Cliwiau ar Draws
2. Beth oedd Sachareias yn ei offrymu yn y cysegr?
4. Nid oedd y plentyn i fod i yfed _ _ _ _.
6. Pwy oedd y tu allan yn gweddïo pan oedd Sachareias yn y cysegr?
7. Dywedodd yr angel y byddai Sachareias yn cael llawenydd a
_ _ _ _ _ _ _ _.



Cliwiau i Lawr
1. Enw'r angel a ddaeth i weld Sachareias.
3. Byddai'r plentyn yn cael ei lenwi â'r Ysbryd _ _ _ _.
4. Elisabeth oedd _ _ _ _ _ Sachareias.
5. Roedden nhw i fod i alw'r plentyn yn _ _ _ _.

7

C **Ym mha adnod rydyn ni'n darllen am Sachareias yn bendithio Duw?**

1

Adnod:

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

C **Trwy fynydd-dir pa wlad roedd pobl yn trafod y digwyddiadau hyn? Ysgrifennwch eich ateb ar y bryniau.**



1

Doedd Sachareias ddim yn gallu credu geiriau'r angel, ond daethant yn wir! Ddylai e ddim fod wedi amau. Weithiau, mae'n anodd i ni gredu beth rydym yn ei ddarllen yn y Beibl ond os edrychwn ni ar yr Adnod Allweddol fe gofiwn ni - 'Ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw!'

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 1: 26-38

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 1: 38

Gwers 2 Y Nadolig Cyntaf – Tasg Arbennig

Ydych chi wedi cael eich dewis i wneud rhywbeth arbennig yn yr ysgol erioed? Actio mewn drama efallai neu ddarllen yn uchel yn y gwasanaeth. Mae'n deimlad da. Meddyliwch sut roedd Mair yn teimlo pan glywodd y byddai'n fam i Fab Duw, yr Arglwydd Iesu!

C **Rhowch gylch o gwmpas y mis pryd yr anfonodd Duw yr angel i Nasareth.**

Y seithfed mis Yr ail fis Y chweched mis

1

CHWILAIR

Ysgrifennwch yr atebion yn y bylchau ac yna rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair. Mae'r geiriau'n rhedeg i fyny, i lawr, ar draws ac am yn ôl.

C	T	Y	U	R	T	FF	D
O	G	A	L	I	L	E	A
T	A	E	G	A	W	S	F
H	B	G	C	M	I	O	Y
Y	R	B	O	C	A	J	DD
R	I	E	U	T	P	T	S
TH	E	R	A	S	A	N	D
A	L	E	G	B	M	A	P

1. Yr ardal lle'r oedd dinas Mair (adnod 26).
.....
2. Enw'r dref (adnod 26).
.....
3. Enw'r ferch ifanc (adnod 27).
.....
4. Enw'r dyn roedd hi'n mynd i'w briodi (adnod 27).
.....
5. Enw'r brenin (adnodau 27 a 32).
.....
6. Enw dyn (adnod 33).
.....
7. Enw'r angel (adnod 26).
.....

7

C **Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i weld beth ddywedodd yr angel wrth Mair.**

FATSICE / RFAFF / YGAD / WUD

_ _ _ _ _ _ _ / _ _ _ _ _ / _ _ _ _ _ / _ _ _

2

C **Nodwch lythyren gyntaf bob llun i weld beth oedd Mair i fod i alw'r Plentyn.**

_____ _____ _____ _____

1

Mae'r enw Iesu yn golygu Gwaredwr.

C **Mae gan Iesu sawl teitl arall. Ysgrifennwch ddau ohonynt o'r Darlleniad o'r Beibl.** 2

_____ **a** _____

C **Pa gwestiwn a ofynnodd Mair pan glywodd y byddai'n cael mab?** 1



Roedd hi'n meddwl tybed a allai gael babi yn ei sefyllfa hi!

C **Ysgrifennwch beth a ddywedodd yr angel wrth Mair am y Baban wedyn.** 3

Dyma wyrth y Nadolig cyntaf! Roedd yr Arglwydd Iesu'n Fab Duw; Mair oedd ei fam ond Duw oedd Ei Dad! Dywedodd yr angel y byddai'r plentyn yn "sanctaidd". Pe bai Iesu'n fab i Mair a Joseff, byddai'n bechadur fel ni ac ni fyddai wedi gallu'n hachub ni oddi wrth ein pechodau!

C **Ysgrifennwch rif yr adnod sy'n dweud nad oes dim yn amhosibl gyda Duw.** 1

Adnod:

C **Ysgrifennwch o'r Adnod Allweddol beth a ddywedodd Mair.** 2

Roedd Mair wedi'i dewis ar gyfer tasg arbennig iawn. Byddai'n fam i Fab Duw, yr Arglwydd Iesu! Wnaeth hi ddim cwyno na grwgnach, er na fyddai llawer o bobl yn deall nac yn credu ei stori.

Weithiau, efallai y bydd Duw yn gofyn i ni wneud rhywbeth Drosto. Cofiwch am Mair, ac ufuddhau i Dduw heb gwyno!



Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 1-20

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 11

Gwers 3 Y Nadolig Cyntaf – Ym Methlehem

Mae mynd ar daith yn gallu bod yn hwyl, ond os nad ydych yn teimlo'n dda, mae'n gallu bod yn galed iawn. Doedd Mair ddim yn sâl ond roedd hi'n amser iddi gael ei babi. Roedd rhaid iddi hi a Joseff deithio i dref arall tua 70 milltir i ffwrdd. Cofiwch, doedd dim trenau na cheir. Roedd y ffyrdd yn arw ac weithiau'n beryglus iawn.



Q Edrychwch eto ar adnodau 1 i 4 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU'CH HUNAN pam roedd Mair a Joseff yn gorfod mynd i Fethlehem.

2

C Tynnwch linell syth o bob cwestiwn i'r ateb cywir.

Pwy oedd yn llywodraethu ar Syria?	Nasareth
Lle roedd Mair a Joseff yn byw?	y gwesty
Lle cafodd y Brenin Dafydd ei eni?	Cyrenius
Lle oedd yn llawn?	Bethlehem



4

C Beth a ddefnyddiodd Mair fel crud ar gyfer ei Baban?

1

C Mewn beth wnaeth Mair rwymo ei Baban?

1

C Pwy oedd yn y caeau yn gofalu am eu defaid?

1

Q Lliwiwch y geiriau cywir o neges yr angel.

Newydd Da

Cariad Mawr

Gobaith Ardderchog

Llawenydd Mawr

2

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

C **Rhowch y geiriau yn y drefn gywir i weld beth ddywedodd yr angylion. Ysgrifennwch eich ateb yn y bocs.**

2

i ddaear ar y goruchaf yn y tangnefedd Dduw ac gogoniant

C **Atebwch CYWIR neu ANGHYWIR i'r brawddegau isod am y bugeiliaid:**

3

Fe benderfynon nhw fynd i chwilio yn y bore. .....

Aethon nhw i Fethlehem a chael y Baban yn gorwedd mewn preseb. .....

Ddywedon nhw ddim wrth neb am y newyddion da. .....

C **Edrychwch ar ddiwedd y Darlleniad o'r Beibl. Yn y bylchau, ysgrifennwch rif yr adnod sy'n dweud (a) beth a wnaeth Mair a (b) beth a wnaeth y bugeiliaid**



2

Beth yw'ch ymateb chi i beth ddigwyddodd ym Methlehem? On'd ydi hi'n anhygoel meddwl bod Mab Duw wedi dod yn faban bach diniwed! Bod yr Un a greodd y byd wedi bod yn gorwedd mewn preseb!

Diolch Dduw am anfon Iesu;
Diolch Iesu i Ti am ddod;
Ysbryd Glân, a wnei Di'n dysgu
Sut y gallwn ni roi clod?

Ydych chi wedi meddwl pam?

Os darllenwch Ioan 3: 16, fe welwch yr ateb. Roedd Duw yn ein caru gymaint fel ei fod wedi rhoi anrheg werthfawr i ni, Ei unig Fab. Ar adeg y Nadolig, rydyn ni'n cael anrhegion ac yn dweud "Diolch". Ydych chi wedi derbyn yr Arglwydd Iesu i'ch bywyd fel Gwaredwr ac wedi diolch i Dduw am Ei Anrheg ardderchog?

Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 22-40

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 2: 30

Gwers 4 Y Nadolig Cyntaf – Yn y Deml

Pan fyddwn ni'n cael anrhegion Nadolig, mi ddylen ni ddweud "Diolch" amdanyn nhw. Aeth Joseff a Mair â Iesu i'r Deml i ddweud "Diolch" wrth Dduw, ond pan aethon nhw yno, fe gawson nhw syndod!

C Ym mha ddinas oedd y Deml? Rhowch linell o dan yr ateb cywir. 1

Bethlehem Nasareth Jerwsalem

C Pa offrwm roedden nhw'n gorfod ei roi yn ôl y Gyfraith? (Gweler adnod 24) 2

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau yn y lluniau i weld enw'r dyn a welodd Mair a Joseff yn y Deml. 1



_____ _____ _____ _____ _____ _____

C Edrychwch yn y Darlleniad o'r Beibl i weld sut ddyn oedd hwn ac atebwch CYWIR neu ANGHYWIR i'r brawddegau isod:- 5

Roedd yn byw yn Jerwsalem. .....

Roedd yn ddyn da. .....

Roedd yr Ysbryd Glân arno. .....

Roedd Duw wedi dweud wrtho na fyddai'n gweld Meseia'r Arglwydd. .....

Arweiniodd yr Ysbryd Glân ef i'r Deml. .....

C Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth wnaeth y dyn pan welodd Iesu. 2

Roedd y dyn hwn yn un o'r ychydig bobl oedd yn deall pam roedd Duw wedi anfon Ei Fab. Hyd yn oed heddiw, 2000 o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae llawer o bobl heb ddeall pam y daeth yr Arglwydd Iesu.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.** 1

2

C **Rhowch gylch o gwmpas y ddau grŵp o bobl y mae Simeon yn sôn amdanynt wrth gyfeirio at Iesu fel y 'Goleuni'.**

Y Galileaid Y Cenhedloedd Yr Israeliaid Y Groegiaid

YSGOL EIRIAU

Defnyddiwch y Darlleniad o'r Beibl i ateb y cwestiynau isod am y broffwydes. 4



1. O ba lwyth oedd hi?
2. Pwy oedd ei thad?
3. A oedd hi'n ifanc ynteu'n hen?
4. Beth roedd hi'n ei wneud yn y deml?

C **Edrychwch ar yr 'ysgol' ar y grid uchod. Beth oedd enw'r broffwydes?** 1

Felly, roedd geni Iesu wedi gwneud llawer o bobl yn hapus iawn. (Yn y wers ddiwethaf roedd y bugeiliaid yn llawenhau ac, yn y wers hon, Simeon ac Anna sy'n llawen - heb anghofio Mair a Joseff!) Ond fyddai bywyd yr Arglwydd Iesu i gyd ddim yn llawen.

C **Pa adnod sy'n dweud wrthym y byddai Mair yn cael tristwch mawr?** 1

Ysgrifennwch isod beth rydych wedi'i ddysgu o'r gwersi hyn am yr Arglwydd Iesu yn dod i'r byd. Ydych chi wedi diolch i Dduw am yr anrheg Nadolig gyntaf a gorau erioed?

Nadolig Llawen Iawn i Chi!!

"...bod y Tad wedi anfon ei Fab yn Waredwr y Byd."
1 Ioan 4:14

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 3 A12

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157
Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiad Cymraeg gan Siân Roberts

Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai rhwng 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120